# Swydd-ddisgrifiad a Manyleb yr Unigolyn

## MANYLION Y SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Dirprwy Bennaeth |
| **Gradd:** | Arweinyddion |
| **Cyfarwyddiaeth:** | Addysg |
| **Isadran:** | Ysgolion |
| **Lleoliad:** | (Enw'r Ysgol) |
| **Atebol i:** | |

## CYFLWYNIAD

Mae'r swydd-ddisgrifiad hwn yn ategu'r safonau, y gwerthoedd a'r agweddau a nodir yn Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth 2018. Bydd y Dirprwy Bennaeth yn cefnogi, yn arddangos ac yn hyrwyddo'r gwerthoedd a'r agweddau cyffredinol a ddiffinnir yn y Safonau Proffesiynol ynghylch:

1) Hawl broffesiynol
2) Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru
3) Hawliau dysgwyr
4) Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
5) Y dysgwr proffesiynol
6) Rôl yn y system

Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd ysgwyddo cyfrifoldebau proffesiynol Dirprwy Bennaeth yn unol â'r hyn a nodir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

## DIBEN Y SWYDD

Dan arweiniad y pennaeth, gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu gweledigaeth eglur ar gyfer yr ysgol, gan gydweithio â holl randdeiliaid yr ysgol, a darparu'r arweinyddiaeth broffesiynol sy'n ofynnol i alluogi bob aelod o staff i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn. Dylid gwneud hyn yn unol â pholisïau'r corff llywodraethu, ac yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellir mewn strategaethau addysg lleol a chenedlaethol.

Dirprwyo ar ran y Pennaeth pan fydd angen gwneud hynny.

## MEYSYDD ALLWEDDOL

**Addysgeg**

1. Bod yn atebol am gefnogi addysgeg pobl eraill trwy greu a chynnal yr amgylchiadau sy'n ofynnol i allu gwireddu'r pedwar diben ar gyfer dysgwyr a chyflawni'r gorau iddynt o ran llesiant, safonau a chynnydd.

| | |
|---|---|
| 2. | Datblygu strategaethau, strwythurau a systemau, gan gydweithio â holl randdeiliaid yr ysgol, i sicrhau fod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol i wireddu'r weledigaeth a rennir gan yr ysgol a sicrhau gwelliant parhaus i'r ysgol, i alluogi cyflawni pedwar diben dysgu, gan ystyried amgylchiadau, polisïau a mentrau cenedlaethol a lleol. |
| 3. | Cymell eraill a chydweithio â hwy i greu a chynnal ethos ac amgylchedd dysgu yn yr ysgol sy'n addas i sicrhau dysgu effeithiol. |
| 4. | Sicrhau'r deilliannau gorau yn gyson i ddysgwyr trwy fireinio a datblygu addysgu yn raddol a dylanwadu ar ddysgwyr. |
| 5. | Sicrhau fod y cwricwlwm yn cael ei drefnu a'i ddarparu a bod amrywiaeth o ddulliau addysgeg yn cael eu defnyddio yn yr ysgol, i gefnogi addysgu a dysgu rhagorol a chyflawni cwricwlwm Cymru. |
| 6. | Sicrhau fod sylw cyson a pharhaus yn cael ei roi ar lefel yr ysgol gyfan i lesiant, profiad a chyflawniad dysgwyr, a sefydlu diwylliant sy'n gweld gwerth yn safbwyntiau dysgwyr i lywio pob cam o'u haddysg a'u profiadau yn yr ysgol. |
| 7. | Gan gydweithio â'r rhanddeiliaid perthnasol, datblygu polisïau ac arferion sy'n hybu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ac sy'n datblygu sgiliau dwyieithog dysgwyr fel y bo'n briodol. |
| 8. | Sicrhau fod pedwar diben dysgu yn cael eu datblygu trwy greu strwythurau a system sy'n cefnogi cynllunio ac yn pwysleisio disgyblaethau'r gwahanol feysydd dysgu yn eu cyd-destun, i sicrhau fod addysgu a dysgu hynod o effeithiol yn digwydd. |
| 9. | Datblygu a gweithredu system effeithiol i fonitro a gwerthuso dylanwad profiadau dysgu a chynnydd dysgwyr, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. |
| 10. | Bod yn atebol am lesiant a deilliannau dysgwyr trwy gydweithio â phob rhanddeiliad perthnasol i sicrhau fod llesiant a chyflawniadau bob dysgwr yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn amlwg ym mhob rhan o'r ysgol. |
| 11. | Gan gydweithio â rhanddeiliaid perthnasol, datblygu strategaethau, polisïau a systemau cynhwysol sy'n galluogi bob dysgwr i gael mynediad llawn at gyfleoedd i gyflawni a sicrhau fod eu hanghenion dysgu unigol yn cael eu diwallu. |
| 12. | Hyrwyddo a sicrhau tegwch mewn llwybrau dysgu academaidd a galwedigaethol a llwybrau dysgu drwy brofiadau. |
| 13. | Datblygu disgrifiad cydlynol, dealladwy a chywir o berfformiad yr ysgol, a chyfleu hynny i amrywiaeth o bartneriaid, yn cynnwys rhieni a llywodraethwyr, gan sicrhau fod hyn yn cynnwys llesiant a chynnydd disgyblion. |
| 14. | Rheoli cyfathrebu effeithiol ynghylch argymhellion sy'n deillio o adroddiadau a'r gwaith o weithredu'r argymhellion hynny, yn cynnwys deilliannau proses hunanwerthuso'r ysgol ac arolygon allanol gan Estyn, er mwyn sbarduno a chynnal gwelliannau i'r ysgol. |
| 15. | Cydweithredu â holl randdeiliaid yr ysgol i ddatblygu hinsawdd a diwylliant dysgu yn yr ysgol sy'n adlewyrchu cyfoeth ac amrywiaeth cymuned yr ysgol, yn cynnwys yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. |

** Cyfrannu, fel y bo'n briodol, at yr addysgu yn yr ysgol.*

**Cydweithredu**

| | |
|---|---|
| 16. | Sefydlu hinsawdd o gyd-gynorthwyo a chydweithredu effeithiol o fewn yr ysgol ac â sefydliadau allanol i ddatblygu, gwella a rhannu addysgeg effeithiol. |
| 17. | Cydweithio â'r pennaeth i sefydlu diwylliant o ddysgu cydweithredol yn yr ysgol a mynd ati i ymgysylltu â sefydliadau addysgol eraill i ddatblygu cymunedau dysgu effeithiol. |

| |
|---|
| 18. Hyrwyddo a hwyluso cydweithredu effeithiol â chyflogwyr, busnes, llywodraeth a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg i annog dulliau gweithredu arloesol a chefnogi a gwella arferion beunyddiol y sefydliad sy'n dysgu. |
| 19. Sefydlu a datblygu partneriaethau yn yr ysgol, a rhwng ysgolion, i rannu arferion gorau a chynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu ysgolion er lles pawb, er mwyn sicrhau ansawdd uchel a chymorth hyblyg i ddatblygu arferion proffesiynol. |
| 20. Cynorthwyo'r Pennaeth i gydweithio â'r corff llywodraethu, fel y gall gyflawni ei gyfrifoldebau i gefnogi addysgu a dysgu effeithiol a gwelliannau parhaus yn yr ysgol. |
| 21. Croesawu llywodraethu cryf a chydweithio â'r Pennaeth i fynd ati i gynorthwyo'r corff llywodraethu i ddeall ei waith a chyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol. |
| 22. Sefydlu perthnasoedd effeithiol ac agored â rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol ehangach er mwyn mynd ati i ennyn eu diddordeb yn llesiant, profiad a chynnydd dysgwyr, a sicrhau fod yr ysgol yn gwneud cyfraniad allweddol at fywyd y gymuned. |
| 23. Cydweithredu ag asiantaethau eraill, yn cynnwys yr awdurdod lleol, i gynnal llesiant dysgwyr a'u teuluoedd. |
| 24. Datblygu ymrwymiad ar lefel yr ysgol gyfan i sicrhau gwelliannau parhaus a datblygiad cynaliadwy trwy fynd ati i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i gydweithredu ar gyfer bob aelod o staff, gan sicrhau fod y meysydd hynny sy'n peri pryder yn cael eu hadnabod yn briodol a gweithredu'n briodol i gefnogi a sicrhau perfformiad gwell. |

**Dysgu Proffesiynol**

| |
|---|
| 25. Creu amgylchedd sy'n gwerthfawrogi dysgu proffesiynol, yn dylanwadu ar addysgeg ac yn cynorthwyo i sicrhau twf proffesiynol ar draws cymuned ddysgu, o fewn yr ysgol a thu hwnt. |
| 26. Sicrhau fod cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson sydd â ffocws penodol ar gael i bob aelod o staff, yn cynnwys cyfleoedd iddo ef/iddi hi ei hun, a sicrhau fod twf proffesiynol yn digwydd yng nghyd-destun yr angen i ddatblygu arferion addysgeg a darparu profiadau a chyflawni deilliannau i ddysgwyr. |
| 27. Cydweithio â'r Pennaeth i ddatblygu diwylliant sy'n cefnogi twf ac arweinyddiaeth ar bob lefel trwy ddatblygu ac annog potensial pobl eraill i fod yn arweinyddion, a chyfrannu at y cyfleoedd sydd ar gael, i ddatblygu'r gallu i arwain yn yr ysgol. |
| 28. Sefydlu rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol i alluogi'r ysgol i wneud cyfraniad gweithgar at y gymuned addysgol ehangaf, a chyfrannu at y gwaith o hyfforddi athrawon y dyfodol ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda dysgwyr, a datblygu ymchwil sy'n rhoi sylw i wella arferion. |

**Arloesedd**

| |
|---|
| 29. Cydlynu arloesedd ar y cyd â phob rhanddeiliad perthnasol, i sicrhau fod yr ysgol yn derbyn ac yn elwa o ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o wireddu arloesedd yn unol â'r weledigaeth dymor hir i Gymru. |
| 30. Sefydlu rhaglen tymor hir o ddulliau gweithredu seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau arloesedd sy'n ceisio cyflawni heriau, rheoli newid a datblygu dysgu'n effeithiol er mwyn gwella llesiant a deilliannau. |
| 31. Cydweithio â'r Pennaeth i greu diwylliant ble caiff arbenigedd, profiad ac arferion addysgol eu datblygu a'u rhannu'n rheolaidd o fewn yr ysgol a rhwng ysgolion. |
| 32. Cydweithio â'r Pennaeth i ddatblygu diwylliant ble caiff tystiolaeth sy'n deillio o arferion arloesol ei defnyddio i werthuso effaith newidiadau, o fewn cymuned yr ysgol a thu hwnt i'r gymuned honno. |

**Arweinyddiaeth**

| |
|---|
| 33. Cydweithio â chymuned yr ysgol i sicrhau cydlyniad, eglurder ac ymrwymiad a rennir er mwyn gwireddu gweledigaeth addysgeg er budd dysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach yng Nghymru. |
| 34. Cydweithio â rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau fod cynllunio strategol yn adlewyrchu amrywiaeth, gwerthoedd, profiad a chyd-destun yr ysgol a'r gymuned ehangach. |
| 35. Sicrhau, â chefnogaeth a mewnbwn y Pennaeth a'r corff llywodraethu, fod yr ysgol yn cydymffurfio â phob polisi mewnol, lleol a chenedlaethol. |
| 36. Cydweithio â'r Pennaeth i greu diwylliant sy'n caniatáu i eraill ddatblygu'n broffesiynol. |
| 37. Datblygu ac annog potensial pobl eraill ar bob lefel i fod yn arweinyddion, er mwyn datblygu'r gallu i arwain yn yr ysgol ac ysbrydoli arweinyddion y dyfodol. |
| 38. Datblygu, grymuso a chynnal unigolion a thimau effeithiol trwy gyfrwng arweinyddiaeth wasgaredig, ac annog myfyrio ynghylch addysgeg. |
| 39. Datblygu rhwydweithiau effeithiol i rannu gwybodaeth broffesiynol, ymchwil ac arbenigedd ymarferol sy'n galluogi'r ysgol ac ysgolion eraill i elwa yn sgil cydweithredu rhyngddynt. |

**Rheoli'r ysgol**

| |
|---|
| 40. Cydweithio â'r Pennaeth a'r rhanddeiliaid perthnasol i lunio a gweithredu cynlluniau a pholisïau eglur sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn datblygu'r ysgol a'i chyfleusterau. |
| 41. Â chymorth y Pennaeth a'r corff llywodraethu, rheoli a threfnu amgylchedd yr ysgol yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau ei bod yn cyflawni gofynion y cwricwlwm a rheoliadau iechyd a diogelwch. |
| 42. Gwneud defnydd effeithiol o'r cymorth a'r her a ddarperir gan yr awdurdod lleol, consortia rhanbarthol a chyrff perthnasol eraill. |
| 43. Cynorthwyo'r Pennaeth a'r corff llywodraethu i reoli adnoddau ariannol a dynol yr ysgol yn effeithiol ac yn effeithlon, er mwyn cyflawni blaenoriaethau a nodau addysgol yr ysgol. |
| 44. Gan gydweithio â'r Pennaeth a'r corff llywodraethu, monitro, gwerthuso ac adolygu amrywiaeth ac ansawdd yr holl adnoddau sydd ar gael a'r defnydd a wneir ohonynt, er mwyn gwella ansawdd addysg bob dysgwr ac i sicrhau gwerth am arian. |
| 45. Cydweithio â'r Pennaeth a rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n sicrhau fod yr ysgol yn cynnig amgylchedd diogel, digynnwrf a threfnus ar gyfer bob dysgwr a bob aelod o staff, a sicrhau safonau uchel o ran ymddygiad a phresenoldeb, gan arwain at amgylchiadau llwyddiannus ble gall dysgu ddigwydd. |

## MANYLEB YR UNIGOLYN

**RhF = Meini prawf llunio'r rhestr fer**

**Daliwch sylw, gall meini prawf llunio'r rhestr fer gael eu profi ar adeg yr asesu hefyd.**

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| CYMHWYSTER | Statws Athro Cymwysedig. (RhF)<br><br>Gradd. (RhF)<br><br>Wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg ar hyn o bryd. | Cymwysterau ychwanegol a/neu'r astudiaethau proffesiynol sy'n berthnasol i'r ystod oedran. (RhF) |
| GWYBODAETH A PHROFIAD | Profiad sylweddol diweddar fel uwch arweinydd mewn: Ysgol Babanod / Gynradd / Uwchradd . (RhF) **dilëwch fel y bo'n briodol*<br><br>Profiad llwyddiannus fel arweinydd e.e. arwain pwnc/cyfnod. (RhF).<br><br>Gwybodaeth am gyd-destun presennol Addysg yng Nghymru a Chenhadaeth ein Cenedl a dealltwriaeth o hynny. (RhF).<br><br>Gwybodaeth am arferion gorau a gweithdrefnau ynghylch diogelu plant a phobl ifanc.<br><br>Profiad llwyddiannus o fonitro, gwerthuso ac adolygu perfformiad er mwyn gwella cyflawniadau bob grŵp o ddisgyblion.<br><br>Gwybodaeth a dealltwriaeth diweddaredig ynghylch beth yn union yw addysgu a dysgu rhagorol a sut i weithredu hynny. (RhF)<br><br>Gwybodaeth am strategaethau a gweithdrefnau effeithiol ynghylch dysgu proffesiynol ac adolygu perfformiad.<br><br>Profiad llwyddiannus o reoli newid.<br><br>Profiad o ddatblygu perthnasoedd effeithiol ag amrywiaeth o randdeiliaid ysgolion, yn cynnwys rhieni a'r gymuned ehangach. (RhF) | Profiad o reoli iechyd a diogelwch.<br><br>Profiad o ddatblygu perthnasoedd a chydweithio'n effeithiol â llywodraethwyr. |
| SGILIAU | Y gallu i lunio a chyfathrebu gweledigaeth eglur ynghylch darpariaeth addysgol o ansawdd uchel ar gyfer yr ysgol. (RhF) | |

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| | Y gallu i arwain, rheoli a chymell staff a disgyblion er mwyn cyflawni safonau uchel.<br><br>Profiad llwyddiannus o ymorol am anghenion disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Y gallu i ddatblygu rhwydwaith cryf o berthnasoedd a phartneriaethau ag ysgolion eraill, proffesiynau addysg a sefydliadau allanol priodol. (RhF)<br><br>Y gallu i gyfathrebu a datblygu cysylltiadau yn effeithiol, yn llafar ac yn ysgrifenedig, ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd. (RhF)<br><br>Sgiliau personol rhagorol o ran defnyddio a chymhwyso technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).<br><br>Sgiliau trefnu da a'r gallu i ddirprwyo. | |
| NODWEDDION PERSONOL | Y gallu i fod yn gydnerth o dan bwysau a pharhau i fod yn gadarnhaol a brwdfrydig.<br><br>Ymrwymiad i ddysgu proffesiynol parhaus personol ac i ddysgu proffesiynol parhaus pobl eraill.<br><br>Ymrwymiad i hybu llesiant holl aelodau cymuned yr ysgol.<br><br>Ymrwymiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.<br><br>Y gallu i wneud penderfyniadau cadarn a chytbwys, a bod yn bendant ei (h)agwedd ac yn hyblyg.<br><br>Gonestrwydd, ffyddlondeb a sensitifrwydd. | |
| GOFYNION ERAILL | Mae'r swydd hon wedi'i heithrio o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a byddir yn gwirio pob ymgeisydd trwy broses drylwyr. Fel rhan o hyn, bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cynnal gwiriad manwl ac yn gwirio rhestri gwahardd. (DBS) | |

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| | Deall ac arddangos parodrwydd i hyrwyddo polisi cyfleoedd cyfartal y Cyngor yn gadarnhaol. | |